Polisi Rheoleiddio Cymwysterau Cyfrwng Cymraeg

AWST 2021

Rheoli ac Adolygu'r Fersiwn

Dyma **Fersiwn 3** Polisi Rheoleiddio Cymwysterau Cyfrwng Cymraeg Cymwysterau Cymru, fe'i gyhoeddwyd ym mis 25 Awst 2021 yn dilyn adolygiad a gynhaliwyd yn 2020.

Rydym ni'n adolygu ein polisïau a chroesewir unrhyw adborth ar y polisi hwn ar unrhyw adeg. Anfonwch unrhyw sylwadau at polisi@cymwysteraucymru.org

Mae'r polisi hwn hefyd ar gael yn **Saesneg.**

Cynnwys

Cyflwyniad **1**

Ein cylch gorchwyl a'n hymrwymiad **1**

Dewis i Bawb **2**

Cymwysterau cyfrwng Cymraeg **3**

Ein gofynion **4**

1. Iaith asesu – cymhwysiad cyffredinol 4
2. Gofynion sy'n gymhwyster-benodol 4
3. Gofynion eraill sy'n gymhwyster-benodol 5
4. Cyflwyno cymwysterau i QiW 5
5. Cydraddoldeb a hygyrchedd 5

Gweithio tuag at 'Gynnig Rhagweithiol' **6**

Cefnogi Cyrff Dyfarnu **6**

Atodiad 1 **8**

Cyflwyniad

1. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob corff dyfarnu sydd wedi'i gydnabod gennym ni o dan Adran 4 (Cydnabod cyrff dyfarnu) Deddf Cymwysterau Cymru 2015 (“y Ddeddf”).

2. Mae hon yn Ddogfen Reoleiddio ac mae'n nodi ein gofynion ar gyrff dyfarnu o ran datblygu, cyflwyno a/neu ddyfarnu cymwysterau cyfrwng Cymraeg. Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â'r Amodau Cydnabod Safonol a'r holl Ddogfennau Rheoleiddio perthnasol eraill gan gynnwys unrhyw amodau a meini prawf sy’n gymhwyster-benodol.

3. Nodir y gofynion ym mharagraffau 16.1 a 16.2 y Ddogfen Reoleiddio hon a rhaid i'r holl gyrff dyfarnu cydnabyddedig gydymffurfio â nhw yn unol ag Amod B7.1 yr Amodau Cydnabod Safonol. Mae'n ofynnol i bob corff dyfarnu cydnabyddedig gymryd pob cam rhesymol i gynyddu argaeledd asesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer yr holl gymwysterau Dynodedig Eraill fel y nodir ym mharagraff 16.3.

4. Yn ogystal â gofynion rheoleiddio ffurfiol, rydym ni hefyd yn darparu cyd-destun ehangach i gyrff dyfarnu yn y ddogfen hon ac yn nodi ein bwriad a'n hymrwymiad i gynyddu argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg. Yn ychwanegol at yr adrannau sy'n amlinellu'r gofynion, yn unol ag Amod B7.2 rhaid i gyrff dyfarnu roi sylw dyledus i bob rhan arall o'r Ddogfen Reoleiddio hon.

5. Ochr yn ochr â'r polisi hwn, rydym ni’n bwriadu parhau i gefnogi cyrff dyfarnu i gynyddu argaeledd eu cymwysterau cyfrwng Cymraeg.

Ein cylch gorchwyl a’n hymrwymiad

6. Fel y nodwyd yn y Ddeddf, ein prif nodau yw:

    (a) sicrhau bod cymwysterau, a system gymwysterau Cymru, yn effeithiol i ddiwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru; a

    (b) hybu hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn system gymwysterau Cymru.

7. Wrth ystyried yr hyn sy'n briodol at ddibenion cyflawni ein prif nodau, rhaid i ni roi sylw dyledus i'r wyth mater yn y Ddeddf, ac un ohonynt yw hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Drwy'r polisi hwn byddwn yn hyrwyddo ac yn hwyluso:

    - defnydd o'r Gymraeg ar draws yr holl gymwysterau sydd ar gael i ddysgwyr yng Nghymru; a

    - darparu asesiadau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Dewis i Bawb

8. Mae ein strategaeth 'Dewis i Bawb' yn nodi'n glir ein hymrwymiad i'r Gymraeg ac i gynyddu'r cymwysterau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i ddysgwyr yng Nghymru. I'r perwyl hwn, rydym ni'n disgwyl i gyrff dyfarnu geisio cyfleoedd i gynyddu eu darpariaeth Gymraeg a byddwn yn eu hannog a'u cefnogi i wneud hynny.

9. Os na ellir cwrdd â'r disgwyliadau hyn, a lle rydym ni'n nodi bylchau yn y ddarpariaeth, byddwn yn ystyried y pwerau rheoleiddio sydd ar gael inni i sicrhau'r ddarpariaeth hon. Rydym ni'n awyddus i weithio gyda'n partneriaid ac i gyfrannu tuag at flaenoriaethau Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

10. Mae Dewis i Bawb yn nodi pedwar maes ffocws strategol:

    10.1 Blaenoriaethu cymwysterau i fod ar gael yn Gymraeg mewn addysg amser llawn, lleoliadau ôl-16, a phrentisiaethau;

    10.2 Cryfhau cefnogaeth i gyrff dyfarnu a'u gallu i ddarparu cymwysterau cyfrwng Cymraeg;

    10.3 Adolygu grant Cymwysterau Cymru i Gefnogi'r Gymraeg i alinio â'r strategaeth newydd, i ganolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth, cymwysterau newydd a cheisiadau arloesol; a

    10.4 Gwella gwybodaeth i ddysgwyr, eu hysgolion a'u colegau, a data at ddibenion rheoleiddio.

Cymwysterau cyfrwng Cymraeg

11. Cymwysterau cyfrwng Cymraeg yw'r rhai lle mae'n rhaid i unrhyw asesiad sydd i'w gwblhau gan ddysgwr fod ar gael iddyn nhw yn Gymraeg. Mae hyn yn golygu pob rhan o'r asesiad, fel unedau neu gydrannau, ac ym mha bynnag fformat, boed yn bapur neu'n ddigidol.

12. Rydym ni'n cydnabod bod rhai cyrff dyfarnu yn cynnig darpariaeth rhannol Gymraeg fel rhan o'u taith i gynyddu eu darpariaeth. Lle mae un neu fwy o unedau/cydrannau cymhwyster ar gael i'w cwblhau gan y dysgwr yn Gymraeg ond nid pob un, nid yw'r cymwysterau hyn wedi'u diffinio fel cyfrwng Cymraeg ac ni ddylid eu labelu felly. Gellir disgrifio'r cymwysterau hyn 'yn rhannol' yn Gymraeg ar QiW ac mewn deunyddiau marchnata'r corff dyfarnu fel rhai sydd ar gael yn rhannol yn Gymraeg.

13. Mae cymwysterau sydd wedi'u labelu ar gronfa ddata QiW fel cyfrwng Cymraeg yn golygu bod yr holl unedau neu gydrannau ar gael i'w cwblhau yn Gymraeg gan y dysgwr. Er mwyn i gymhwyster fod yn un cyfrwng Cymraeg, y canlynol yw'r lleiafswm y mae'n rhaid ei fod ar gael yn Gymraeg:

    13.1. Yr holl ddeunyddiau asesu, boed yn arholiad neu fath arall o bapur, ar y sgrin, neu gwestiynau digidol i'w cwblhau gan y dysgwr;

    13.2. Y fanyleb ar gyfer y cymhwyster, gan gynnwys unrhyw derminoleg berthnasol sy'n ofynnol ar gyfer y cymhwyster;

    13.3. Deunyddiau Asesu enghreifftiol, lle bo hynny'n berthnasol; ac

    13.4. Unrhyw ddeunyddiau eraill sy'n cael eu gwneud yn orfodol gan y corff dyfarnu i'r dysgwr gael cyfle i ennill y cymhwyster.

14. Pan fo cymhwyster yn un cyfrwng Cymraeg, nid yw hyn yn atal y cymhwyster rhag bod ar gael yn Saesneg hefyd. Pan fydd cyrff dyfarnu ar gael yn y Gymraeg ac yn Saesneg, gall dysgwyr ddewis cwblhau rhai neu bob un o gydrannau'r cymhwyster naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae canolfannau sy'n dysgu'n ddwyieithog - yn Gymraeg ac yn Saesneg - ac efallai y bydd dysgwyr yn dewis cwblhau eu hasesiadau yn ddwyieithog h.y. rhai cydrannau o'r cymhwyster yn Gymraeg ac eraill yn Saesneg. Dewis y dysgwr/dewis iaith yw hwn ac mae'n wahanol i'r corff dyfarnu yn sicrhau bod ei holl asesiadau ar gael yn Gymraeg y gall y dysgwr ddewis ohonynt.

Ein gofynion

15. **Iaith asesu – cymhwysiad cyffredinol**

15.1. Nodir yr Amodau Cydnabod Safonol sy'n ymwneud â'r iaith yr asesir cymhwyster (boed yn Gymraeg neu'n Saesneg neu iaith arall) yn Amodau G2.1 - G2.4 o'r enw 'Iaith yr Asesiad'. Mae'r amodau hynny yn gymwys i bob corff dyfarnu a chymhwyster.

15.2. Yn ogystal ag Amodau G2.1 - G2.4 yr Amodau Cydnabod Safonol, lle mae cyrff dyfarnu yn datblygu, cyflwyno neu ddyfarnu cymwysterau a ddisgrifir ym mharagraffau 16.1, 16.2 a 16.3 y ddogfen hon, rhaid iddynt gydymffurfio â'r ddogfen reoleiddio hon fel sy'n ofynnol gan Amod B7.1.

16. **Gofynion sy'n gymhwyster-benodol**

16.1. Rhaid i bob corff dyfarnu sicrhau bod eu holl gymwysterau **Cymeradwy**[1] ar gael i'w hasesu yn Gymraeg.

16.2. Rhaid i bob corff dyfarnu sicrhau bod eu holl[2] gymwysterau **Dynodedig**[3] ar gael i'w hasesu yn Gymraeg i'w haddysgu gyntaf o fis Medi 2027 (neu unrhyw ddyddiad a bennir gennym ni), lle cynigir y rhain i ddysgwyr sy'n cael eu haddysgu ar raglenni dysgu sy'n gymwys i gael cyllid cyhoeddus cyn-16.

16.3. Ar gyfer cymwysterau Dynodedig nad ydynt wedi'u cynnwys ym mharagraff 16.2 a'r holl gymwysterau **Rheoledig Eraill**, mae Cymwysterau Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol i gynyddu argaeledd asesu trwy gyfrwng y Gymraeg.

16.4. Wrth gydymffurfio â pharagraff 16.3 uchod, dylai cyrff dyfarnu flaenoriaethu cymwysterau:

16.4.1. mewn meysydd blaenoriaeth a nodwyd mewn strategaethau cenedlaethol fel rhai sy'n gofyn am fwy o ddarpariaeth yn y Gymraeg;

[1] https://qualificationswales.org/cymraeg/ein-gwaith/rheoleiddio-cymwysterau/cymeradwyo-cymwysterau/
[2] Heblaw am y rheini lle mae prif nod cymhwyster yn gofyn i'r dysgwr gael ei asesu mewn unrhyw iaith arall er mwyn ennill gwybodaeth, sgiliau, a dealltwriaeth o'r iaith honno.
[3] https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/polisi-dynodi

16.4.2. sy'n ymwneud â lleoliadau ôl-16 a'r sectorau â blaenoriaeth ynddynt;

16.4.3. sy'n mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth Gymraeg; a

16.4.4. sy'n fwy tebygol o arwain at ddilyniant a/neu gyflogaeth lle defnyddir y Gymraeg.

17. Gofynion eraill sy'n gymhwyster-benodol

17.1. Ceir hefyd ofynion sy'n gymhwyster-benodol wedi'u nodi mewn dogfennau rheoleiddio perthnasol, fel Meini Prawf Cymeradwyo Pwnc unigol.

18. Cyflwyno cymwysterau i QiW

18.1. Rhaid cyflwyno pob cymhwyster sydd o fewn cwmpas cydnabyddiaeth, p'un a yw'n Gymeradwy, yn Ddynodedig neu'n Reoledig Arall, i QiW a rhaid iddo gynnwys gwybodaeth glir a chywir am yr iaith/ieithoedd y mae'r asesiad ar gael ynddynt (Cymraeg yn unig/Saesneg yn unig/Cymraeg a Saesneg).

19. Cydraddoldeb a hygyrchedd

19.1. Rhaid i ddysgwyr sy'n cwblhau asesiad yn Gymraeg beidio â bod â mantais nac o dan anfantais o gymharu â dysgwyr sy'n cwblhau'r asesiad cyfatebol yn Saesneg.

19.2. Lle mae asesiadau ar gael yn Gymraeg a Saesneg, rhaid i ddysgwyr allu cyrchu'r rhain mor hawdd â fersiynau Saesneg, gan gynnwys gallu llywio i'r iaith o'u dewis o fewn asesiadau digidol.

19.3. Yn unol ag Amod Safonol G2.4, rhaid i gyrff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod asesiadau yn Gymraeg a Saesneg yn sicrhau Lefel Gofynion[4] gyson i Ddysgwyr.

[4] Am fwy o wybodaeth, cyfeiriwch at Amod G1 ac adran J ein Amodau Cydnabod Safonol.

Gweithio tuag at ‘Gynnig Rhagweithiol’

20. Gelwir hwyluso ac annog defnydd o’r Gymraeg yn ‘Gynnig Rhagweithiol’. Mae hyn yn golygu sicrhau bod cymhwyster a/neu wasanaeth ar gael yn Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano.

21. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o'r camau y gall cyrff dyfarnu eu cymryd i hwyluso ac annog defnydd o’r Gymraeg a chynyddu argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg yn unol â'n strategaeth Dewis i Bawb ac yn ein canllawiau:

    (a) dod yn fwy rhagweithiol yn eich perthynas â chanolfannau i nodi bylchau a chyfleoedd ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol;

    (b) sicrhau bod deunyddiau marchnata cyhoeddedig gan gynnwys y wefan yn dangos yn glir pa gymwysterau sydd ar gael yn Gymraeg;

    (c) mynd ati i hwyluso ac annog dysgwyr i ddilyn cymwysterau cyfrwng Cymraeg;

    (d) codi ymwybyddiaeth staff o'r cymwysterau mae cyrff dyfarnu yn eu cynnig trwy gyfrwng y Gymraeg, ein strategaeth Dewis i Bawb a'r ddeddfwriaeth gan gynnwys hawliau i siaradwyr Cymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011; a

    (e) casglu data ar ddewisiadau iaith adeg cofrestru / ymrestru neu gyfnod amserol arall, ac yn seiliedig ar y dystiolaeth hon, trefnu aseswyr, cymedrolwyr a dilyswyr yn rhagweithiol sy'n gallu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg i gyd-fynd â dewisiadau iaith dysgwyr.

Cefnogi Cyrff Dyfarnu

22. Byddwn yn parhau i weithio gyda chyrff dyfarnu i gefnogi darpariaeth Gymraeg. Mae ein strategaeth Dewis i Bawb yn nodi sut rydym ni’n cefnogi cyrff dyfarnu yn fwy manwl, ond at ddibenion y polisi hwn, mae'r prif ffyrdd yr ydym yn cefnogi cyrff dyfarnu yn cynnwys y canlynol:

    - Cymorth ariannol - grantiau i gefnogi dyrchafiad ac argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg neu ar gyfer hyfforddi staff a meithrin gallu;

- Canllawiau - Canllawiau arfer da ar ddatblygu, cyflwyno a dyfarnu cymwysterau cyfrwng Cymraeg gan gynnwys astudiaethau achos, cysylltiadau defnyddiol a chyfeiriadau ychwanegol; a

- Rhannu a hwyluso gwybodaeth - Mae Grŵp Cefnogi'r Iaith Gymraeg Cyrff Dyfarnu yn cwrdd yn rheolaidd i rannu profiadau ac arfer gorau ar ystod o faterion o ddiddordeb.

Gellir gweld y ddogfen hon ar ein rhestr o Ddogfennau Rheoleiddio

Atodiad 1

Amodau Cydnabod Perthnasol

Amod B7 - Cydymffurfiaeth cyrff dyfarnu â Dogfennau Rheoleiddiol

B7.1 Os bydd Dogfen Reoleiddio yn ei gwneud yn ofynnol i gorff dyfarnu gymryd, neu beidio â chymryd, camau gweithredu, rhaid i'r corff dyfarnu gydymffurfio â'r gofyniad hwnnw.

B7.2 Os bydd Dogfen Reoleiddio yn nodi canllawiau neu egwyddorion arfer da mewn perthynas ag unrhyw ymddygiad ar ran corff dyfarnu, rhaid i'r corff dyfarnu ystyried y canllawiau neu'r egwyddorion hynny cyn iddo ymddwyn yn y fath fodd.

Amod G2 - Iaith yr asesiad

G2.1 Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau y caiff pob Dysgwr sy'n astudio ar gyfer ei gymwysterau yng Nghymru ei asesu yn Gymraeg a/neu Saesneg, ac eithrio i'r graddau y mae'r Amod hwn yn caniatáu defnyddio iaith arall.

G2.4 Os bydd corff dyfarnu yn darparu cymhwyster mewn mwy nag un iaith, rhaid i'r corff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod asesiadau mewn ieithoedd gwahanol yn sicrhau Lefel Gofynion cyson i Ddysgwyr.